# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-19-09)

**Dyddiad: 13 Gorffennaf 2009**
**Amser: 16.45**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC307 - Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credyd Treth Gwaith) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 1 Gorffennaf 2009. Fe'i gosodwyd ar 3 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 3 Awst 2009

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi, at ddibenion adran 512ZB o Ddeddf Addysg 1996, Gredyd Treth Gwaith pan fo gan riant hawl i gael y Credyd hwnnw o dan yr amgylchiadau a ddiffinnir yn rheoliad 7D o Reoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002. Effaith y Gorchymyn, pan fo gan riant hawl i gael Credyd Treth Gwaith yn ystod y cyfnod o bedair wythnos yn union ar Ôl i'w waith cyflogedig beidio, neu ar Ôl i'r rhiant ddechrau gweithio am lai na 16 o oriau yr wythnos, yw bod gan ei blentyn hawl i gael ciniawau ysgol am ddim.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC304 - Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009-06-30

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 24 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 16 Gorffennaf 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer gorfodi rheoliadau marchnata'r Gymuned Ewropeaidd yn y sector ffrwythau a llysiau ffres y darperir ar ei gyfer yn Erthyglau 113 a 113a o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin o farchnadoedd amaethyddol ac ar ddarpariaethau penodol ar gyfer rhai cynhyrchion amaethyddol, ac a gynhwysir yn Nheitl II o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1580/2007 sy'n gosod rheolau gweithredu Rheoliadau'r Cyngor (EC) Rhif 2200/96, (EC) Rhif 2201/96 ac (EC) Rhif 1182/2007 yn y sector ffrwythau a llysiau.

Yn benodol, maent yn rhoi ar waith y diwygiadau a wnaed i reolau marchnata'r Gymuned a gyflwynwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1221/2008 yn y sector ffrwythau a llysiau o ran safonau marchnata.

SLC308 - Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 3 Gorffennaf 2009. Fe'u gosodwyd ar 6 Gorffennaf 2009. Yn dod i rym ar 27 Goffennaf 2009

Mae'r Rheoliadau hyn ("y Rheoliadau diwygio") yn diwygio Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") sy'n nodi'r gofynion o ran cofrestru, modrwyo a marcio at ddibenion Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("y Ddeddf") mewn perthynas ag adar a restrir o dan Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

Bydd y ddarpariaeth diwygio yn caniatáu i Hebogau Tramor a Chudyllod Bach gael eu cofrestri at ddibenion Adran 7(1) os oes ganddynt dystysgrif Erthygl 10 berthnasol o'r fath y cyfeirir ato yn Erthygl 10 o Reoliad EC Rhif 338/97 ynghylch gwarchod ffawna a fflora gwyllt drwy reoleiddio'r fasnach ynddynt. Mae Rheoliad 338/97 yn rhoi ar waith y Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt mewn Perygl (CITES).

### Eitem 4: Y Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir (Mesur Seneddol)

SLC(3)-17-2009(p1): Y Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir a Nodiadau Esboniadol:

SLC(3)-17-2009(p2): Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol

SLC(3)-19-2009(p1): Cais am wybodaeth gan y Cadeirydd i'r Gweinidog

SLC(3)-19-2009(p2): Ymateb y Gweinidog i'r cais gan y Cadeirydd am wybodaeth

SLC(3)-19-2009(p3): Memorandwm gan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig

a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi

Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig

Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Eitem 5: Unrhyw fater arall**

**Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf**